



## Amcan Llesiant 8

Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach  
(mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

Dyma ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymiaidau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<b>A - Yn bwyta ac yn anadlu'n iach</b>		
Byddwn yn gweithio gyda masnachfreintiau arlwygo a hamdden i gynnig a hyrwyddo opsiynau bwyta ac yfed mwy iach i ddefnyddwyr. <i>(Cam gweithredu rhif 12704)</i>	✓	Dechreuodd swyddog prosiect newydd ym mis Medi 2017 i adolygu'r ddarpariaeth arlwygo ar draws yr Adran Cymunedau, gan roi pwyslais penodol ar safleoedd hamdden allweddol. Adroddwyd ynghylch adolygiad a chynllun gwaith i'r Tîm Rheoli Adrannol ar 28 Mawrth, 2018 gydag achos busnes ar gyfer opsiynau rheoli'r dyfodol i bob man arlwygo ar draws yr adran. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r is-adran arlwygo Addysg a chaffael i ddatblygu opsiynau.
Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd aer (nitrogen deuocsid) ar gyfer trigolion ac ymwelwyr â'r Sir gan weithredu rhaglen samplu. <i>(Cam gweithredu rhif 12599)</i>	✓	Mae monitro Nitrogen Deuocsid ledled y sir wedi bod yn digwydd yn fisol. Bydd hyn yn cefnogi'r ymgynghoriad presennol i'r cynlluniau gweithredu ar gyfer Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer Llanelli a Chaerfyrddin, yn ogystal â'r cynlluniau gweithredu cyfredol i Landeilo. Mae'r data wedi'i gipio o bob safle ac mae canlyniadau'n cael eu hasesu a'u riportio.
Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd dŵr ar gyfer trigolion ac ymwelwyr â'r Sir gan weithredu rhaglen samplu. <i>(Cam gweithredu rhif 12936)</i>	✓	Mae'r rhaglenni dŵr ymdrochi a dŵr yfed preifat wedi'u cwblhau ar gyfer eleni
Byddwn yn sicrhau bod canran uchel iawn o sefydliadau bwyd yn cydymffurfio â safonau hylendid bwyd <i>(PAM/023)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 97.5% / Targed 2017/18 - 93%)</i>	✓	Ar gyfer 2017/18, roedd <b>97.91%</b> o sefydliadau bwyd wedi cyrraedd safonau hylendid bwyd.
Byddwn yn sicrhau bod pob busnes bwyd risg uchel sy'n gorfod bod yn destun archwiliadau wedi'u rhaglennu yn cael eu harchwilio. <i>(PPN/001ii)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 100% / Targed 2017/18 100%)</i>	✓	Cafodd yr holl fusnesau bwyd risg uchel a raglennwyd ar gyfer archwiliadau eu harolygu yn ystod 2017/18- <b>100%</b> .
Sefydlu'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau ar lefel leol. <i>(Cam gweithredu rhif 12600)</i>	✓	Mae'r asesiad poblogaeth rhanbarthol bellach wedi'i gwblhau ac mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi caniatáu i bob ardal leol yn y Gwasanaeth Integredig ddatblygu cynllun lleol, sy'n cymryd i ystyriaeth ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth at ddarparu gwasanaethau. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu datblygu, eu hadolygu a'u rhoi ar waith ar lefel Leol.
<b>B - Gweithgarwch corfforol</b>		
Byddwn yn rheoli Cydgysylltydd Iechyd a Llesiant yn y Gweithle a thîm o hyrwyddwyr i roi newidiadau ar waith o ran lefelau gweithgarwch corfforol a llesiant meddyliol staff ac oedolion ar sail gynaliadwy i'r adran. <i>(Cam gweithredu rhif 12601)</i>	✓	Mae'r rhaglen Iechyd a Llesiant yn ceisio annog a chefnogi gweithwyr i wneud newidiadau positif i'w ffordd o fyw a chymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd drwy ddarparu cyngor, cymorth, digwyddiadau a gweithgareddau. Caiff y rhaglen ei harwain gan y Cydgysylltydd Iechyd a Llesiant, a'i chefnogi gan

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>rwydwaith o 'Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant'. Gweithwyr yr awdurdod sy'n gwirfoddoli ar gyfer y rôl hon yw'r Hyrwyddwyr, sydd hefyd yn cyflawni eu dyletswyddau presennol ar draws y sefydliad, ac maent yn darparu cymorth a chynghor i gydweithwyr gan ganolbwyntio ar raglenni y mae modd eu cyflawni ac ymyriadau iechyd a llesiant i weithwyr. Hyd yn hyn mae nifer o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal, sy'n amrywio o brofion yr ysgyfaint i weithwyr i Ffair Iechyd a Llesiant sy'n canolbwyntio ar lywio a gwella iechyd a llesiant y gweithlu. Datblygwyd ymyraethau wedi'u targedu hefyd, mae Adnoddau Dynol wedi ymgymryd â darn o waith mewn perthynas ag ystadegau absenoldeb salwch gydag adroddiad yn nodi pa adrannau sy'n peri'r risg fwyaf. Mae hyn wedi helpu i benderfynu lle mae angen ymyriadau wedi'u targedu, a thrwy weithio gydag Adnoddau Dynol, Iechyd Galwedigaethol ac Iechyd a Diogelwch, mae rhaglen ymyrraeth briodol wedi cael ei datblygu lle bo'r angen. Rydym yn edrych ar hyn o bryd i ymestyn y swydd wedi'r dyddiad gorffen sef mis Mawrth 2018, yn ogystal â chyflogi Cydgysylltydd arall rhan-amser i helpu i gyflwyno'r prosiect. Bydd hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i ddarparu mecanwaith cymorth i weithwyr ganolbwyntio ar eu Hiechyd a'u Llesiant a'u gwella, sydd â'r potensial i leihau lefelau absenoldeb salwch a gwella cynhyrchiant gweithwyr tra byddant yn y gwaith.</p>
<p>Rhaid inni ddatblygu cynlluniau ar gyfer Hwb Llesiant newydd Llanelli (Canolfan Hamdden) fel rhan o'r Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd yn Llynnoedd Delta. <i>(Cam gweithredu rhif 12602)</i></p>	✓	<p>Sefydlwyd is-grŵp hwb Llesiant sy'n cwrdd yn rheolaidd i ddatblygu'r prosiect. Mae'r fanyleb ar gyfer y Ganolfan Llesiant newydd (Canolfan Hamdden) wedi'i mireinio a'i chroesgyfeirio â grŵp lechyd ehangach i sicrhau cysondeb ar draws 5 cam bywyd y cytunwyd arnynt. Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i'w gydgysylltu gan lechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y prosiect ehangach. Rydym yn disgwyl canlyniad y broses gaffael i bartneriaid er mwyn bwrw ymlaen â dyluniad manwl a chynllunio busnes.</p>
<p>Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu llwybr gwell o ddarpariaeth gweithgareddau dŵr sy'n galluogi cyfranogwyr i gyrraedd eu potensial llawn. <i>(Cam gweithredu rhif 12494)</i></p>	x	<p>Cam 1. Mae pob swydd gweithgareddau dŵr wedi'u llenwi bellach ond mae'r elfennau recriwtio terfynol yn cael eu cwblhau. Byddwn yn gweld gwelliannau sylweddol i'n rhaglenni drwy gyflwyno'r tîm hwn o reoli a chydgylltu. Mae oedi wedi bod o ran Cam 2 gan nad oedd y tîm ar gael, fodd bynnag mae gwaith cwmpasu wedi cael ei gwblhau ac mae cyfarfodydd ar waith gyda chlybiau nofio i ymchwilio i'r posibilrwydd o uno'r llwybr gweithgareddau dŵr. Bydd y gwaith hwn yn ffocws ar gyfer y misoedd nesaf a bydd cynnig yn cael ei roi gerbron erbyn diwedd mis Awst 2018.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✗	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn gweithredu'r Strategaeth Feicio ar gyfer Sir Gaerfyrddin a fydd yn canolbwyntio ar 5 thema strategol allweddol. 1-Addysg, Datblygu a Hyfforddiant; 2-Seilwaith a Chyfleusterau; 3-Marchnata a Brandio; 4 – Twristiaeth a 5 – Digwyddiadau. <i>(Cam gweithredu rhif 12603)</i></p>	✓	<p>Mae'r Strategaeth Feicio yn destun y broses ddemocrataidd ar hyn o bryd er mwyn ei chymeradwyo. Mae grŵp llywio ac is-grwpiau llywodraethu strategaeth wedi cael eu sefydlu ac wedi cyfarfod. Mae prosiect y Felodrom wedi ei gwblhau. Mae'r Gylchffordd Gaeddig wedi cael ei dendro a'r bwriad yw dechrau'r gwaith ar y safle ym mis Ebrill, i'w gwblhau ym mis Mehefin 2018. Mae cynllun digwyddiadau a chyfathrebu yn cael ei fireinio i ategu'r strategaeth.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth <i>(PAM 017)</i></p> <p><i>(Canlyniad 2016/17 – 8,289 / Targed 2017/18 - 8,996)</i></p>	✗	<p>Mae 1,582,994 o ymweliadau wedi bod â'n canolfannau hamdden yn ystod 2017/18, sy'n <b>8,522 am bob 1,000</b> o'r boblogaeth. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o 2.8%, a hefyd yn incwm. Mae'n siomedig ein bod yn brin o'r targed uchelgeisiol a osodwyd, ond rydym wedi gweld dros 48,000 yn fwy o bresenoldebau na'r llynedd, a hynny o achos gwelliannau yn y cyfleusterau, mwy o aelodau o ran gweithgareddau dŵr a ffitrwydd, ac ati. Rydym hefyd yn darparu profiad llawer gwell i'n defnyddwyr, sy'n amlwg drwy'r sgôr a gawn ganddynt ar 'Net Promoter Score' (mesur o foddhad cwsmeriaid) gyda chynnydd yn y sgôr o 29% ar gyfer 2016-17 i 44% ar gyfer 2017-18. Mae rhai datblygiadau cynlluniedig a fyddai wedi digwydd yn ddelfrydol ac wedi effeithio ar bresenoldeb yn ystod 2017-18 (e.e. stiwdio spin newydd a chanolfan chwarae yng Nghaerfyrddin) wedi cael eu gohirio i 2018-19, ac mae hynny wedi effeithio ar ein gallu i gyrraedd y targedau a bennwyd, ond mae'r rhain i'w cyflawni cyn bo hir.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu canran y bobl a gyfeiriwyd at y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff sy'n mynychu ymgynghoriad cychwynnol y rhaglen <i>(3.4.2.6)</i></p> <p><i>(Canlyniad 2016/17 – 58.1% / Targed 2017/18 - 58.5%)</i></p>	✗	<p>Nid yw canlyniad 2017/18 o <b>53.8%</b> yn unol â'r targed ac mae'n dangos dirywiad. Mae 2017-18 wedi bod yn flwyddyn i weithio ar gryfhau cysylltiadau â phartneriaid atgyfeirio, gan ganolbwyntio ar gynyddu nifer yr atgyfeiriadau. Mae hyn wedi llwyddo (cynyddu o 1,235 i 1,510), ond mae wedi golygu bod mwy o bwyslais ar ddarparu a llai o allu i ymweld â phartneriaid a chynyddu ein heffeithlonrwydd yn y gymuned. Mae wedi rhoi gwasanaeth sydd heb weld unrhyw newid yn y gyllideb ers 6 blynedd dan bwysau aruthrol, ac mae hynny wedi'i waethygu gan dri chyfnod o absenoldeb hirfaith i aelodau allweddol o staff.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu canran y bobl a gyfeiriwyd at y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff sy'n cwblhau'r rhaglen 16 wythnos <i>(3.4.2.7)</i></p> <p><i>(Canlyniad 2016/17 – 50.2% / Targed 2017/18 - 50.5%)</i></p>	✗	<p>Mae 305 o gleientiaid a atgyfeiriwyd wedi cwblhau'r rhaglen 16 wythnos yn ystod 2017/18, ac mae hyn yn cyfateb i <b>45.6%</b> ac yn ostyngiad o gymharu â'r llynedd. Mae cyfuniad o gynnydd mewn atgyfeiriadau (gweler uchod) a materion staffio parhaus wedi golygu nad ydym wedi cyrraedd ein targed, ond rydym yn gobeithio dychwelyd i sefyllfa staffio llawn cyn bo hir.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<b>C - Iechyd Meddwl</b>		
<p>Byddwn yn cyfrannu at raglenni trawsnewid iechyd ym maes iechyd meddwl ac ailgynllunio gwasanaethau ym maes anabledau dysgu. <i>(Cam gweithredu rhif 12605)</i></p>	✓	<p>Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a sesiynau i Aelodau yn ystod 2017, ynghyd â gweithdy ar gyfer yr holl bartneriaid ar 30 Ionawr lle cytunwyd ar strwythur prosiect, blaenoriaethau ac arweinwyr ffrydiau gwaith ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Iechyd Meddwl. Arweinir y rhaglen hon gan Fwrdd Iechyd Unedol Hywel Dda ac Uwch-swyddogion o'r tri Awdurdod Lleol, sydd newydd gymeradwyo dechrau gweithredu'r model cytunedig. Sefydlwyd yr is-grwpiau canlynol i ysgogi a llywio'r cynnydd o ran gweithredu:</p> <p>Trafnidiaeth; Y Gweithlu a Newid Diwylliannol; Llwybrau, <i>Access Design</i> a Grwpiau Lleol ac Adnoddau; ac Ystadau, Seilwaith a TG.</p> <p>Y nod yw cael aelodaeth amlsector ac amlasiantaeth i bob un o'r grwpiau hyn barhau ag ymrwymiad y rhaglen i gyd-gynhyrchu drwy gydol y broes weithredu.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd fesul 1,000 o'r boblogaeth <i>(PAM/016)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 – 7,646 / Targed 2017/18 - 7,684)</i></p>	✓	<p>Roedd 1,428,231 o ymweliadau â'n llyfrgelloedd yn ystod 2017/18, sy'n <b>7,689 fesul 1,000</b> o'r boblogaeth. Mae lansio 'Makerspace' yn Llyfrgell Rhydaman (man gwaith ar y cyd ar gyfer gwneud, dysgu, archwilio a rhannu sy'n defnyddio offer uwch-dechnoleg ac sydd ar agor i blant, oedolion ac entrepreneuriaid) ynghyd â marchnata hyrwyddol cyson wedi arwain at gynnydd o ran ymgysylltu ag ysgolion a phobl ifanc. Drwy bartneriaethau gweithio â nifer fawr o sefydliadau, mae digwyddiadau rheolaidd a phoblogaidd wedi'u cynnal i oedolion a phlant yn ein llyfrgelloedd. Ynghyd â pharhau i fuddsoddi mewn stociau llyfrau poblogaidd, adnoddau TG ar-lein ar gyfer e-lyfrau, llyfrau sain, cylchgronau digidol/comics ac adnoddau llythrennedd plant.</p>
<b>D - Camddefnyddio Sylweddau</b>		
<p>Byddwn yn sicrhau bod ein tîm camddefnyddio sylweddau arbenigol yn diwallu anghenion y gwasanaethau plant ac oedolion drwy ddarparu cyngor, cymorth a mewnbwn uniongyrchol i dimau rheng flaen.<i>(Cam gweithredu rhif 12607)</i></p>	✓	<p>Mae'r ffaith bod y Tîm Camddefnyddio Sylweddau wedi symud i Tŷ Elwyn wedi gwella trefniadau cydweithio gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuentid a'r Timau Plant. Mae'r tîm yn parhau i weithio ar draws timau gofal cymdeithasol a darparu cyngor arbenigol mewn perthynas â materion camddefnyddio sylweddau, gan sicrhau bod pobl yr effeithir arnynt gan gyffuriau a chamddefnyddio alcohol yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen pan fydd arnynt ei angen.</p>